

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

13 Chwefror 2019

Yn bresennol: Mr A Archer (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, Mrs G Hayward, Dr R Heath
Davies, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd R Owens a'r
Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am-11.40am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd P Baker.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

O ran Cofnod (9), roedd yr Aelodau am gael y ffigur trosiant cywir ar gyfer The Nest Tearoom yng Nghastell Caeriw. Cadarnhawyd y bu gwarged o ychydig dros £9,000 am y chwe mis o fasnachu hyd at fis Medi. Nodwyd y byddai Caeriw ar gau am ychydig wythnosau yn ystod y gwanwyn eleni oherwydd gwaith ar yr ardd furiog a allai effeithio ar ffigurau'r flwyddyn ariannol gyfredol / nesaf, ond gobeithir y byddai'r safle yn agored dros y gyfnod y Pasg.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018.

4. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am gyfarfod

Trafododd yr Aelodau adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

O ran yr atodiad Digwyddiadau/Damweiniau, gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion ynglŷn â'r digwyddiad lle cafodd gweithiwr ei losgi yng Nghaeriw (Digwyddiad 824) a'r Tân mewn Adeilad (Digwyddiad 825). Eglurodd y Prif Weithredwr fod llawer o waith wedi'i wneud i annog staff i lenwi ffurflenni digwyddiadau oherwydd mai'r farn gyffredin oedd bod un damwain yn cael ei hosgoi am bob deg digwyddiad. Cadarnhaodd y byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth am y ddau fater ac adrodd yn ôl i'r Aelodau.



PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

5. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Rhafyr 2018

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018/19. Roedd hyn yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda 7 o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth am lywodraethu cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r manylion am berfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2018 ac mae'n cynnwys ystadegau chwarter 1, 2, a 3 (Ebrill - Rhagfyr) ar gyfer rhai setiau data.

Arweiniodd Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau drwy'r adroddiad, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y Cynllun Tywydd Garw. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod yn cyfeirio at y camau i'w cymryd yn ystod / yn dilyn tywydd garw, megis diogelwch coed. Ar hyn o bryd roedd y broses yn cael ei digido a byddai'n cael ei hadolygu y flwyddyn nesaf.

Roedd yr Aelodau'n pryderu am y ffigurau ymwelwyr â Chastell Henllys a gofynnwyd beth ellid ei wneud i'w gwella. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y safle wedi bod heb Reolwr yn ystod y 6 mis diwethaf, ond roedd proses recriwtio ar gyfer y swydd hon ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd yr Awdurdod hefyd yn y broses o greu cynllun pum mlynedd ar gyfer pob un o'r canolfannau. Er nad oedd yn edrych fel bod Castell Henllys yn perfformio'n dda, roedd yr adborth a dderbyniwyd ar gyfer y safle wedi bod yn hynod o gadarnhaol, a dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y staff yn ymwybodol o'r dirywiad yn y ffigurau nwyddau ac yn edrych ar ffyrdd o wella pethau. Byddai'r swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa a byddai'r safle yn destun adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol. Nododd un Aelod y bu gostyngiad cenedlaethol yn nifer yr ymwelwyr i amgueddfeydd/orielau a gofynnodd a oedd yna ystadegau cyffredinol y gellid eu cynnwys yn yr adroddiad er cymhariaeth.

Er bod gorfodi cynllunio yn dal i fod yn bryder i'r Aelodau, cawsant eu sicrhau y dylai'r ôl-groniad o achosion fod wedi'u clirio erbyn diwedd mis Mawrth. Nododd y Swyddog y byddai'r ffigurau'n parhau i gael eu monitro. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai angen set wahanol o ddangosyddion ar ôl mis Ebrill. Dywedodd y Swyddog y byddai'n rhaid cadw'r mesurau presennol gan eu bod yn dargedau Llywodraeth Cymru, ond y gellid ychwanegu dangosyddion ychwanegol.

Holodd yr Aelodau am ddyfodol y prosiect Pwyth mewn Pryd. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y prosiect ar hyn o bryd yn cael arian grant gan



Lywodraeth Cymru ac roedd hwnnw'n dod i ben ddiwedd mis Tachwedd. Cyflwynwyd cais arall am grant, a disgwylir penderfyniad erbyn diwedd mis Mai. Os na fyddai'r grant hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai angen i'r Awdurdod edrych ar wahanol opsiynau.

Cadarnhaodd y Swyddog fod y gwaith technegol ar y wefan newydd ar y gweill ac y byddai'n cael ei lansio fesul cam. Byddai trafodaethau pellach ynglŷn â'r brandio yn cael eu cynnal mewn gweithdy i Aelodau yn y dyfodol.

NODWYD

6. Llythyr Archwilio Blynyddol 2017-18

Roedd llythyr Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio. Cafodd y llythyr, a oedd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau, ei gyflwyno i'r Aelodau er gwybodaeth.

NODWYD.

7. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 9 mis hyd at fis Rhagfyr 2018

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad cyllidebol am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2018. Darparwyd y gyllideb refeniw net fanwl a ddangosodd fod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £3,535k, sef £92k o dan y gyllideb a broffwydwyd, a nodwyd y rhesymau dros yr amrywiannau yn yr adroddiad. Nodwyd bod Rhagolygon Refeniw 2018/19 yn warged o tua £200k yn erbyn gwarged/diffyg cyllidebol wreiddiol o ddim. Roedd hyn oherwydd nifer o amrywiadau, gan gynnwys arbedion cyflog o swyddi gwag heb eu llenwi a bod yr incwm o ffioedd cynllunio a pharcio yn uwch na'r disgwyl.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf a oedd wedi gostwng o'r gyllideb wreiddiol o £493k i gyllideb ddiwygiedig o £429k o ganlyniad i lithriad gwaith sy'n gysylltiedig â Gardd Furiog Caerw, Sarn Caerw a Thai Crynion Castell Henllys i 2019/20.

Yn olaf, nododd yr adroddiad y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Er y disgwylir i'r Cronfeydd Cyffredinol gynyddu i £1,182k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, roedd disgwyl i Gronfeydd wedi'u Clustnodi ostwng. Byddai Derbyniadau Cyfalaf yn cynyddu i £653k yn rhannol o ganlyniad i werthu tir yn Sageston.



NODWYD

8. Y Gofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid wrth yr Aelodau y gobeithiai y byddai'r fformat newydd ar gyfer y Gofrestr Risg ar gael yn y chwarter nesaf unwaith y cwblhawyd y trafodaethau ag Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Nid oedd y toriad cyllid disgwylidig wedi digwydd, ac felly roedd y Risg Tymor Byr o ostyngiad sylweddol yn y cyllid (Risg 1) wedi lleihau. Bu gostyngiadau hefyd yn y risg o fethu â dyrannu'r holl grantiau SDF (Risg 15) oherwydd y cytundeb lefel gwasanaeth gyda Planed i gefnogi gweinyddu'r cynllun a'r risg o fethu â chynnal perfformiad y gwasanaeth rheoli datblygu (Risg 25) oherwydd bod 85.4% o'r holl geisiadau cynllunio wedi cael eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol yn y flwyddyn hyd yn hyn.

Nodwyd bod yr Awdurdod yn y broses o recriwtio Rheolwr Busnes a TG newydd i ddisodli'r swydd ar y cyd bresennol gydag APC Bannau Brycheiniog. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, er bod y trefniant wedi bod yn bositif, bod systemau'n dod yn fwyfwy digidol ac ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol cynyddu capasiti yn y maes hwn. Er bod y risg o fethiant TG mawr (Risg 20) yn parhau, roedd ganddo hyder llwyr yn y Swyddogion TG presennol i reoli'r risg honno. Soniodd un Aelod y dylid ystyried diweddarau'r camau lliniaru a rheoli / monitro mewn perthynas â'r risg hon.

Nodwyd mai'r unig risg gynyddol oedd effaith Brexit (Risg 39) a nodwyd y byddai gweithdy yn cael ei gynnal ar ôl cyfarfod nesaf APC ar y mater hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y dadansoddiad o sefyllfa Brexit 'dim bargaen' yn ymwneud â goblygiadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Credai na fyddai llawer o effaith yn y tymor byr, ond fodd bynnag yn y tymor hirach gallai fod effeithiau sylweddol ar batrwm rheoli tir ac amaethyddiaeth yn ogystal â gostyngiadau posibl mewn GDP (Cynnyrch Mewnwladol Crynswth) gan arwain at bwysau cyllidebol. Cadarnhaodd y Swyddog Cyllid nad oedd yn credu bod gan yr Awdurdod unrhyw rwymedigaethau ariannol yn deillio o'r sefyllfa 'dim bargaen' ac nad oedd ganddo unrhyw brosiectau a fyddai'n cael eu heffeithio ar hyn o bryd. Teimlai'r Aelodau y gallai'r effaith ar economi a thwristiaeth yn gyffredinol, oherwydd y gostyngiad mewn ymwelwyr Ewropeaidd, fod yn niweidiol. Gofynnwyd am ychwanegu diweddariad cynnydd pellach at y Gofrestr ar gyfer y cyfarfod nesaf.

NODWYD.



9. **Dirprwyo materion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'w dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

